# Cynllun cyflawni ar gyfer gofalwyr di-dâl 2025 i 2026

Tîm Polisi Gofalwyr Di-dâl Llywodraeth Cymru
PolisiGofalwyrDi-dal@llyw.cymru

Mae'r Cynllun Cyflawni hwn wedi'i lunio ar y cyd â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli gofalwyr di-dâl, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector. Mae'r Cynllun Cyflawni hwn yn rhan o'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl.

**Gweithio'n drawslywodraethol**

Cyfeirir at ofalwyr di-dal a chânt eu hystyried mewn ystod o strategaethau, polisïau a chynlluniau eraill gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r strategaeth newydd Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol Pob Oed 2024-2034, y Strategaeth Tlodi Plant, Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 | LLYW.CYMRU, Fframwaith NYTH ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl a llesiant, Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles): cyflwyniad | LLYW.CYMRU, y strategaeth atal hunanladdiad, Strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio: cynllun cyflawni 2025 i 2028 | LLYW.CYMRU a'n Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio | LLYW.CYMRU. Mae gofalwyr di-dâl yn faes blaenoriaeth i'r Fforwm Cydraddoldeb Rhywedd ac o ran ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Arsylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 2023.

## Blaenoriaeth strategol 1: Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr

Canlyniadau:

- gwell cydnabyddiaeth o ofalwyr di-dâl o bob oed ac o bob cymuned
- bod mwy o ofalwyr di-dâl yn hunanddiffinio
- gwell cydnabyddiaeth o ofalwyr di-dâl gan ymarferwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol
- gwell cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r rôl ofalu mewn cymunedau
- gwell cydnabyddiaeth o ofalwyr ifanc mewn addysg
- bod lleisiau gofalwyr di-dâl yn cael eu clywed ac yn dylanwadu ar bolisi a gosod blaenoriaethau strategol

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Ar y cyd, bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn asesu anghenion gofalwyr yn eu hardal ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio gwasanaethau | Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd | Cyhoeddi ar y cyd asesiadau o anghenion y boblogaeth bob 5 mlynedd. | Yr asesiad nesaf i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2027 |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| (adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). | | | |
| Adolygu'r wybodaeth i ofalwyr a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru, neu drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru, i sicrhau ei bod yn hygyrch a'i bod yn adlewyrchu'r amrywiaeth ymhlith gofalwyr di-dâl. Gofyn am adborth / cyfraniad grwpiau cymunedol perthnasol at y gwaith o adolygu'r wybodaeth a datblygu unrhyw ddeunyddiau newydd. | Llywodraeth Cymru a'r holl sefydliadau cyflenwi. | • Adroddiadau gan sefydliadau cyflenwi.<br>• Arddangos sut y mae grwpiau cymunedol perthnasol yn cymryd rhan. | • Erbyn mis Medi 2025<br>• Parhaus |
| Gweithgarwch hyrwyddo er enghraifft negeseuon cyhoeddus, cyfleoedd yn y cyfryngau ac ymweliadau gan Weinidogion i godi ymwybyddiaeth o gyfraniad gofalwyr ac annog hunanddiffinio. | Llywodraeth Cymru a'r holl sefydliadau cyflenwi. | • Hysbysiadau i'r wasg, erthyglau i'r cyfryngau, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.<br>• Ymweliadau gan Weinidogion a phresenoldeb mewn digwyddiadau. | • Parhaus |
| Hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc er mwyn annog hunanddiffinio. | Llywodraeth Cymru | • Data ynghylch gwybodaeth a rennir ar y cyfryngau cymdeithasol<br>• Cynnydd yn nifer y gofalwyr ifanc sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol. | • Mai 2025 ac adegau eraill |
| Datblygu a chydgysylltu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr, eu hawliau a'r mynediad at gymorth o fewn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol. Y brif gynulleidfa fydd gweithwyr | Gofalwyr Cymru / Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru / Fforwm Cymru | • Datblygu adnoddau a'u hyrwyddo drwy sianeli perthnasol.<br>• Ceisio adborth cychwynnol a'i | • Tachwedd 2025<br>• Adolygu ym mis Mawrth 2026 |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| proffesiynol ym maes iechyd a gofal - ond bydd adnoddau hefyd yn cael eu defnyddio gan randdeiliaid cymunedol i gyfeirio gofalwyr ac yn cael eu hyrwyddo gan wasanaethau gofalwyr lleol. | Gyfan / Llywodraeth Cymru | ddefnyddio wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. | |
| Ymwneud â sefydliadau i sicrhau ymwybyddiaeth o gymunedau amrywiol o ofalwyr teuluol. | Fforwm Cymru Gyfan | • Adborth. | • Parhaus |
| Datblygu adnoddau a phecynnau e-ddysgu ar gyfer cyrsiau iechyd israddedig ac ar gyfer byrddau iechyd at ddibenion cynefino staff a datblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>Sicrhau bod deunyddiau hyfforddi yn ymdrin â materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel bod modd cyrraedd gofalwyr o bob oed ac o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, crefyddol ac ethnig a chyfathrebu â nhw.<br><br>Darparu adnoddau i'w cynnwys yn yr hyfforddiant a ddarperir ar hyn o bryd i weithwyr gofal iechyd drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru. | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru | • Nifer ac ystod yr adnoddau e-ddysgu a gynhyrchir.<br>• Adborth gan bobl sy'n cwblhau hyfforddiant a chyflogwyr.<br>• Cadarnhad bod adnoddau wedi'u hymgorffori fel y bwriadwyd ac yn cael eu defnyddio.<br>• Adborth drwy AaGIC gan bobl sy'n manteisio ar yr hyfforddiant. | • Y cyfan erbyn mis Mawrth 2026<br><br>• I'w gadarnhau gan AaGIC |
| Cyfrannu deunyddiau ynghylch bod yn ymwybodol o ofalwyr at hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio ym maes anabledd dysgu. | Fforwm Cymru Gyfan | • Adborth gan ddarparwyr hyfforddiant. | • Parhaus |
| Cymhwyso egwyddorion bod yn ymwybodol o ofalwyr yn ymarfer y gweithlu mewn ysbytai i sicrhau bod gofalwyr yn cymryd rhan lawn ac yn cael eu cynorthwyo pan fo angen derbyn cleifion i'r ysbyty a chynllunio i'w rhyddhau. | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru<br><br>Byrddau Iechyd | • Gwasanaethau cymorth i ofalwyr a ddarperir mewn ysbytai.<br>• Datblygu ymhellach adnoddau staff er mwyn | • Adroddiad monitro gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru bob 6 mis |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- |
| Cyllid parhaus i fyrddau iechyd drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i sicrhau bod ymwybyddiaeth o ofalwyr ar waith a gwybodaeth i staff a gofalwyr di-dâl mewn lleoliadau ysbytai (caiff hyn ei gynnwys hefyd ym Mlaenoriaeth Strategol 2). | Llywodraeth Cymru | hyrwyddo arferion gorau wrth gynllunio i ryddhau cleifion.<br>• Hyrwyddo'n barhaus rôl gofalwyr di-dâl wrth ryddhau cleifion, fel yr adlewyrchir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch rhyddhau cleifion. | • Adroddiadau monitro yn sgil gofynion adrodd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol |
| Datblygu adnoddau / pecynnau e-ddysgu ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac israddedigion ym maes gofal cymdeithasol – a gynhyrchir ar y cyd â gofalwyr di-dâl.<br><br>Sicrhau bod deunyddiau hyfforddi yn mynd i'r afael â materion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i alluogi cyrraedd gofalwyr o bob oed ac o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, crefyddol ac ethnig, yn ogystal â chyfathrebu â nhw.<br><br>Hyfforddiant 'byw' cyfyngedig a seminar Ymwybyddiaeth o Ofalwyr i reolwyr. | Gofalwyr Cymru | • Nifer ac ystod yr adnoddau e-ddysgu a gynhyrchir.<br>• Adborth gan bobl sy'n cwblhau hyfforddiant a chyflogwyr.<br>• Nifer y staff / sesiynau sy'n cwblhau hyfforddiant byw.<br>• Cadarnhad bod adnoddau wedi'u hymgorffori fel y bwriadwyd ac yn cael eu defnyddio. | • Y cyfan erbyn mis Mawrth 2026 |
| Diweddaru'r wybodaeth a'r adnoddau presennol ynglŷn â gofalwyr di-dâl ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol. | Gofal Cymdeithasol Cymru | • Cadarnhad bod y deunyddiau wedi'u diweddaru. | • 30 Medi 2025 |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | • Gwybodaeth gan Gofal Cymdeithasol Cymru ynghylch y defnydd. | |
| Gwybodaeth ac adnoddau dysgu ar gyfer fferyllwyr cymunedol wedi’u hymgorffori yn y fframwaith newydd ar gyfer fferyllfeydd. | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru / Llywodraeth Cymru | • Cadarnhad bod hyn wedi’i gyflawni.<br>• Adborth gan fferyllwyr ar werth yr adnoddau. | • Erbyn 30 Mehefin 2025<br>• Parhaus |
| Cynyddu gweithgarwch y Rhwydwaith Proffesiynol Gofalwyr Ifanc. | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru | • Y nifer sy’n mynychu, cynyddu i 3 cyfarfod.<br>• Adborth gan aelodau. | • Monitro drwy gydol y flwyddyn |
| Y defnydd a wneir o adnoddau gwybodaeth wedi'u hadnewyddu ynghylch gofalwyr ifanc a ddarperir ar Hwb a Dysg ar gyfer ysgolion a cholegau (caiff hyn ei gynnwys hefyd ym Mlaenoriaeth Strategol 4). | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru / Llywodraeth Cymru | • Cadarnhad bod adnoddau wedi’u cynnwys ar blatfformau perthnasol.<br>• Adborth gan ysgolion a cholegau. | • Erbyn 30 Mehefin 2025<br>• Parhaus |
| Adolygu’r defnydd o’r wybodaeth ynghylch cardiau adnabod gofalwyr ifanc a ddarparwyd i awdurdodau lleol ym mis Rhagfyr (caiff hyn ei gynnwys hefyd ym Mlaenoriaeth Strategol 4). | Llywodraeth Cymru | • Gwybodaeth i’w chasglu gan awdurdodau lleol ynghylch y defnydd sydd wedi'i wneud o'r deunyddiau a ddarparwyd. | • Erbyn 30 Ebrill 2025 |
| Parhau â chynrychiolaeth o ofalwyr di-dâl unigol ar y Grŵp Cynghori Gweinidogol (yn ychwanegol at y sefydliadau gofalwyr o’r trydydd sector). | Cadeirydd / Llywodraeth Cymru / Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru | • Presenoldeb parhaus ac adborth gan aelodau. | • Parhaus |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Cynyddu nifer yr aelodau o'r Bwrdd Cynghori Gofalwyr Ifanc a'i weithgarwch, gan gynnwys digwyddiadau ehangach ar gyfer gofalwyr ifanc er mwyn casglu barn.  Cyfrannu at waith y Grŵp Cynghori Gweinidogol ac amcanion polisi Llywodraeth Cymru. | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru | • Cynnydd sylweddol yn nifer yr aelodau gweithredol.<br>• Adborth gan aelodau.<br>• Adroddiad gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru. | • Adolygu ym mis Hydref 2025 ac ym mis Chwefror 2026 |
| Cefnogaeth barhaus i gynrychiolaeth o ofalwyr di-dâl ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. | Gofalwyr Cymru | • Gofalwyr Cymru yn cyfarfod â chynrychiolwyr ac yn rhannu materion â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol / Llywodraeth Cymru. | • Adolygu ym mis Hydref 2025 ac ym mis Chwefror 2026 |

## Blaenoriaeth strategol 2: darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth

Canlyniadau:

- mae gofalwyr di-dâl yn elwa ar fwy o gysondeb ac yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth yn haws
- gall gofalwyr di-dâl gael gafael ar gyngor da yn hawdd er mwyn hwyluso'r broses o hawlio budd-daliadau / taliadau perthnasol
- mae gofalwyr di-dâl yn elwa ar fynediad gwell at asesiadau anghenion gofalwyr sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth ac egwyddorion arferion gorau

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn sicrhau bod gwasanaethau ataliol ar gael yn eu hardaloedd (adran 15 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). | Awdurdodau lleol a byrddau iechyd | • Darparu gwasanaethau priodol.<br>• Asesiadau mewnol / sicrhau ansawdd. | • Parhaus |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | • Arolygiadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. | |
| Bydd awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth a chyngor ynglŷn â gwasanaethau cymorth i ofalwyr di-dâl yn ogystal â'u cynorthwyo i gael gafael ar y cymorth hwnnw (adran 17 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). | Awdurdodau lleol a byrddau iechyd | • Darparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth.<br>• Asesiadau mewnol / sicrhau ansawdd.<br>• Adolygiadau ac arolygiadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru. | • Parhaus |
| Bydd byrddau iechyd lleol yn cydweithio ag awdurdodau lleol ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr. | | • Asesiadau mewnol / sicrhau ansawdd. | • Parhaus |
| Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i fyrddau iechyd sicrhau bod ymwybyddiaeth o ofalwyr ar waith yn ogystal â gwybodaeth i staff a gofalwyr di-dâl mewn lleoliadau ysbytai (caiff hyn ei gynnwys hefyd ym Mlaenoriaeth Strategol 1). | Byrddau Iechyd / Llywodraeth Cymru | • Cytundeb o ran cyllid wedi'i sicrhau.<br>• Gofynion adrodd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. | • Monitro yn ystod y flwyddyn |
| Parhau â'r gwasanaeth gwybodaeth a chyngor a'r adnoddau a ddarperir gan Gofalwyr Cymru. Hyrwyddo hunaneiriolaeth.<br><br>Diweddaru deunyddiau (cydgynhyrchu) a sefydlu tudalen lanio gydlynol i'w defnyddio ar gyfer cyfeirio defnyddwyr. | Gofalwyr Cymru | • Adborth ynghylch yr adnoddau sydd ar gael.<br>• Cyrhaeddiad ar You Tube ac ar y cyfryngau cymdeithasol. | • Adroddiadau a chyfarfodydd monitro yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd blwyddyn |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Mapio gwasanaethau gwybodaeth a chymorth presennol sy’n canolbwyntio ar ofalwyr a chynnal dadansoddiad o’r bylchau a sefydlu’r angen am fewnbwn pellach. | | | |
| Gwasanaeth gwybodaeth a chyngor wedi’i dargedu at ofalwyr hŷn – i gynnwys llinell ffôn bwrpasol ac adnoddau penodol. | Age Cymru | • Age Cymru i werthuso’r cyrhaeddiad – perfformiad yn erbyn targedau. | • Adroddiadau a chyfarfodydd monitro yn ystod y flwyddyn ac ar ddiwedd blwyddyn |
| Adolygiad o’r Siarter ar gyfer Gofalwyr a pha mor hwylus y mae gwybodaeth ar gael i ofalwyr di-dâl drwy dudalennau gwefan Llywodraeth Cymru. | Llywodraeth Cymru a’r Gynghrair Cynhalwyr. | • Adolygiad wedi’i gwblhau<br>• Adborth gan ofalwyr. | • Medi 2025 |
| Parhau â chyngor ariannol drwy’r Gronfa Cymorth i Ofalwyr. | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru / sefydliadau cyflenwi lleol | • Darparu gwybodaeth am weithgarwch a chanlyniadau. | • Hydref 2025 ac Ebrill 2026 |
| Parhau â chyngor ar fudd-daliadau a hawliau, gan sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael sylw fel grŵp penodol. | Gwybodaeth am fudd-daliadau gan Lywodraeth Cymru | • Sicrhau bod anghenion gofalwyr di-dâl yn cael sylw. | • Parhaus |
| Parhau i ddarparu gwybodaeth am fudd-daliadau a chynhyrchu incwm i deuluoedd sy’n helpu pobl ag anableddau dysgu.<br><br>Codi ymwybyddiaeth gofalwyr di-dâl o asesiadau o anghenion gofalwyr. | Fforwm Cymru Gyfan | • Nifer yr ymweliadau â safle gwybodaeth ar-lein.<br>• Cynnal cyfarfodydd â chynrychiolwyr gofalwyr di-dal o’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. | • Parhaus |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | Fforwm Cymru Gyfan, gan gefnogi Gofalwyr Cymru | | |
| Gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd o dan nawdd y Grŵp Cynghori Gweinidogol i hyrwyddo gwelliannau ac arferion gorau wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr di-dâl ac o ran cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr. | Grŵp Cynghori Gweinidogol / Llywodraeth Cymru | • Adborth gan ofalwyr di-dâl drwy sefydliadau gofalwyr cenedlaethol ac ymatebion i'r arolwg Dilyn y Ddeddf (Gofalwyr Cymru).<br>• Nifer yr asesiadau a gynhaliwyd.<br>• Casglu gwybodaeth sicrhau ansawdd / adborth gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd. | • Rhagfyr 2025 |

## Blaenoriaeth strategol 3: Helpu i fyw yn ogystal â gofalu

Canlyniadau:

- mae gofalwyr di-dâl yn parhau i elwa ar gyfleoedd seibiannau byr ychwanegol
- mae gofalwyr di-dâl a chleifion yn elwa ar gyfraniad gofalwyr di-dâl wrth ryddhau cleifion o’r ysbyty a chynllunio gofal
- mae gofalwyr di-dâl yn parhau i elwa ar gymorth ariannol brys
- gall gofalwyr di-dâl gael gafael ar gymorth llesiant priodol

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Bydd awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau i ddiwallu’r anghenion cymwys am gymorth ar gyfer | Awdurdodau lleol | • Darparu gwasanaethau, cyfleusterau neu daliadau. | • Parhaus |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| gofalwyr di-dâl (adran 34 ac adrannau 40-45 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). | | • Asesiadau mewnol / sicrhau ansawdd.<br>• Adolygiadau ac arolygiadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru. | |
| Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer y Gronfa Seibiannau Byr i alluogi gofalwyr i elwa ar gyfleoedd seibiannau byr. | Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol / Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru | • Gwerthusiad annibynnol<br>• Adborth wedi'i gasglu gan bartneriaid cyflenwi. | • Ebrill 2025<br>• Monitro ym mis Hydref 2025 ac ym mis Ebrill 2026 |
| Bydd Llywodraeth Cymru, partneriaid statudol a phartneriaid o'r trydydd sector yn cyfrannu at yr adolygiad annibynnol sydd wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth y DU ynghylch y Lwfans Gofalwr. | Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill | | • Yn ôl yr angen |
| Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i'r Gronfa Cymorth i Ofalwyr sy'n darparu micrograntiau i ofalwyr sydd ar incwm isel brynu eitemau hanfodol. | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru | | • Monitro ym mis Hydref 2025 ac ym mis Ebrill 2026 |
| Sesiynau llesiant a grymuso ar gyfer gofalwyr er mwyn darparu gwybodaeth a chymorth i ofalwyr di-dâl. | Gofalwyr Cymru | • Cynnal 12 sesiwn. | • Erbyn mis Mawrth 2026 |
| Bydd Gofalwyr Cymru yn adolygu ei adnoddau llesiant presennol ar gyfer gofalwyr di-dâl o bob oed.<br><br>Hyrwyddo defnydd gofalwyr di-dâl o'r platfform Hapus a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n darparu gwybodaeth ac adnoddau ynghylch hunangymorth a | Gofalwyr Cymru a Llywodraeth Cymru | • Cynnwys a chanolbwyntio'n benodol ar ofalwyr. | • Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025 |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| llesiant. Darparu straeon gan ofalwyr di-dâl i annog hunanddiffinio. | | | |
| Asesu cynigion presennol i gefnogi Bywyd ar ôl Gofalu, gan ddefnyddio dadansoddiad o'r bylchau i fapio gwasanaethau a nodi'r angen am ddarpariaethau pellach. | Gofalwyr Cymru | • Cwblhau ymarferion, gan adrodd ar ganfyddiadau. | • Erbyn mis Mawrth 2026 |
| Defnyddio cyllid grant i sefydlu 5-7 grŵp cymorth cymunedol neu glybiau cymdeithasol yn benodol ar gyfer gofalwyr hŷn sydd wedi ymddeol. Gall hyn gynnwys estyn grwpiau sydd wedi'u sefydlu drwy gyllid peilot tebyg yn 2024/25. Digwyddiadau arferion da i rannu dysgu. | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru | Grwpiau sydd wedi'u sefydlu.<br><br>Adroddiadau ar ganlyniadau.<br><br>Cynnal dau ddigwyddiad arferion da. | • Erbyn mis Mawrth 2026 |
| Darparu adnoddau i ofalwyr di-dâl er mwyn galluogi hunaneiriolaeth. | Gofalwyr Cymru | • Defnydd o becyn cymorth hunaneiriolaeth ac adborth gan ofalwyr. | • Parhaus |

## Blaenoriaeth strategol 4: Helpu gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle

Canlyniadau:

- mae gofalwyr ifanc yn elwa ar fwy o gymorth mewn addysg, gan gynnwys gofalwyr sy'n oedolion ifanc mewn addysg bellach
- trwy ddatblygu'r ffordd y cesglir data, mae gennym y potensial i wella'r ddealltwriaeth o ofalwyr ifanc mewn addysg
- caiff gofalwyr di-dâl eu helpu'n well i barhau mewn cyflogaeth â thâl neu ddychwelyd i gyflogaeth â thâl, lle bo hynny'n bosibl

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| Adnewyddu adnoddau gwybodaeth am ofalwyr ifanc sydd ar gael i staff mewn ysgolion a cholegau (caiff hyn ei gynnwys hefyd ym Mlaenoriaeth Strategol 1). | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru / Llywodraeth Cymru | • Adborth am y defnydd o ddeunyddiau a'u gwerth. | • Hydref 2025 |
| Hyrwyddo ymwybyddiaeth o Ddeddf Absenoldeb i Ofalwyr 2023.<br><br>Nodi canfyddiadau adroddiadau ynglŷn â gwerthuso effeithiau. | Llywodraeth Cymru / Gofalwyr Cymru | • Adolygu gweithgarwch cysylltiedig. | • Parhaus |
| Cymorth i ofalwyr di-dâl i fentro i fyd cyflogaeth â thâl neu ddychwelyd i'r gwaith. Cyflawnir hyn drwy wneud y canlynol:<br>• hyfforddiant mynediad at waith a chymorth i ofalwyr di-dâl<br>• hyfforddi staff canolfannau gwaith a hyfforddwyr gwaith a sicrhau eu bod yn ymwneud â chyflogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl | Gofalwyr Cymru | • Nifer y gofalwyr di-dâl sy'n cwblhau hyfforddiant a chanlyniadau.<br>• Nifer y cysylltiadau a'r digwyddiadau hyfforddi a ddarperir, ac adborth. | • Monitro ym mis Hydref 2025 ac ym mis Ebrill 2026 |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc ymhlith y rhai sy'n trefnu prentisiaethau. | Llywodraeth Cymru | • Adolygu gweithgarwch cysylltiedig. | • Parhaus |
| Hyrwyddo hyrwyddwyr gofalwyr di-dâl yn y gweithle a'u helpu a hyrwyddo'r Canllaw i Ofalwyr sy'n Gweithio. | Gofalwyr Cymru | • Nifer yr hyrwyddwyr gofalwyr sydd ar waith mewn gweithleoedd yng Nghymru sydd â chyfanswm o 85,000 o weithwyr.<br>• 80% o hyrwyddwyr gofalwyr wedi cwblhau | • Monitro ym mis Hydref 2025 ac ym mis Ebrill 2026 |

| Sut y byddwn yn cyflawni hyn | Cyflawni | Mesurau | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | hyfforddiant ar hawliau gofalwyr a'r gweithle.<br>• Adborth yn dangos lefelau uwch o ymwneud rhwng gofalwyr a hyrwyddwyr y gweithle, a rhwng cyflogwyr a hyrwyddwyr y gweithle. | |